Rhif 2

# Yr Hen Wlad

Chwefror 1994

## At Gymry Patagonia

**Cyfarchion efo rhifyn arall o *Yr Hen Wlad*. Daeth gair o ddiolch gan Neved Williams a Norman Ll. Jones, hefyd Glyn a May Ceiriog Hughes. 'Roedd y cerdyn a gawsom oddi yna gan Gwilym Roberts hefyd yn cyfeirio at y rhifyn cyntaf.**

**Disgwyliwn yn eiddgar am glywed y Parchedig a'r Fns. Arthur Meirion Roberts yn adrodd eu profiadau yn ystod y cyfnod y buont yna o dan yr "Haul ac Awyr Las" y sonia Cathrin Williams amdanynt yn ei chyfrol ddiddan o'r enw yna sy'n cofnodi ei hymweliadau â'r Wladfa a chyrion eithaf Tir y Tanau.**

*Y Golygyddion, Garreg Boeth,Capel Uchaf, Clynnog Fawr,Caernarfon, Gwynedd. LL54 5DH*

## GWELL A GWAETH

Newydd da oedd clywed gan Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol mai ar y dydd Iau y bydd seremoni Y Cymry ar Wasgar am y tair blynedd nesaf, a'r seremoni hefyd yn fyrrach, cyfoes a mwy lliwgar.

Dywedir hefyd mai'r Cwmni Cymreig *Dolen* sydd wedi cael y cytundeb arlwyo am yr un cyfnod.

Mae'r trydydd cyhoeddiad yn ein tristáu pan ddeallwn fod cystadleuwyr yn brin a'r Dr. Gwilym Humphreys, Y Cadeirydd, wedi apelio at bob aelod o'r Cyngor i geisio cael un parti neu gôr newydd i gystadlu.

Pan ddeuir at ragolygon Eisteddfod Bro Colwyn 1995 cawn mai'r newydd o bwys yw cyhoeddi mai *Swrocco* fydd enw'r babell ieuenctid. Tybed ai nod ein heisteddfodau bellach fydd maldodi'r ieuenctid? Pabell arbennig ar gyfer creu sŵn i'r plantos ar y maes a maes arbennig yn ystod y dydd i'r llafnau a'r llafnesi gael adnewyddu eu nerth ar gyfer dathliadau'r nos?

Ysgwn i - o gofio fod Eisteddfod Llanelwedd y llynedd ar faes Sioe Amaethyddol - a welir maes o law gornel i deirw a lloc i heffrod?

## JAN MORRIS

Un o'r llenorion amlycaf sy'n ysgrifennu yn Saesneg yw Jan Morris. Mae wedi cartrefu ers blynyddoedd yn Llanystumdwy, Eifionydd. Er mai yno y mae ei chartref gallwn dystio hefyd ei bod yn un o'r goreuon am grwydro. Nid syndod i neb fuasai ei chyfarfod yn Ffrainc neu'r Eidal neu America a'r wyneb llawen yn eich croesawu lathenni cyn eich cyrraedd.

Ymateb y llenor i deithiau ar draws y byd yw deunydd ei chyfrolau niferus ac ni synnem weld cyfeiriad, os nad cyfrol, am Batagonia ryw ddydd.

Yn ei chynefin yn Eifionydd y cyfarfu'r Golygyddion â hi ganol mis Ionawr, a'r newydd a gawsom ganddi oedd ei bod bryd hynny o fewn ychydig ddyddiau i gychwyn am Batagonia! Mae'n dod i Drelew ac Esquel.

## MAE O YMA O HYD

Mae Dafydd Iwan yn dal i ddenu'r cynulleidfaoedd ac ef, yn ddiamau, yw'r mwyaf poblogaidd o'n holl berfformwyr, ac wedi bod ar y brig am dros ugain mlynedd.

Mae Cwmni Sain yn cyhoeddi disg o'i hoff alawon gwerin Cymreig, yn eu plith ceir *Molianwn, Bugeilio'r Gwenith Gwyn, Trwy'r Drysni a'r Anialwch* hefyd weithiau J. Glyn Davies. Tudur Morgan o Langefni biau'r trefniannau ac ef hefyd yw'r Cynhyrchydd.

Tybed a glywir cân newydd gan Ddafydd i groesawu'r Prins pan ddaw hwnnw i Gaernarfon yn ystod yr haf?

---

Melys bys pan losgo. *Dihareb*

# COLLED

**Yn frawychus o sydyn, ar Dachwedd 20 1993, bu farw Dei Edwards, Llanuwchllyn.**

Yr oedd yn ŵr amryddawn; yn beiriannydd, yn gerddor, yn ddarllenwr, yn gasglwr llyfrau ac yn sgwrsiwr diddan. Yr oedd yn adnabyddus i lu hefyd fel cymwynaswr parod.

Bu'n ennill ei fywoliaeth mewn modurdy, ac yn torri coed; yn gweithio ar ffermydd ac yn Drefnydd Ffermwyr Ifainc yn Sir Drefaldwyn ac yn rhedeg bws. Mae sôn am i'w fws dorri ar un o'i deithiau yn Yr Alban a dywedai un o'r teithwyr amdano bryd hynny mai Dei oedd yr unig un a welsai erioed yn medru newid y rhan o injan bws a elwir yn *big end*, a hynny ar ochr y ffordd ymhell o gyrraedd modurdy.

Pan ymwelodd â'r Wladfa yn 1976 y cyfarfu â Mair, oedd yn Weinyddes yn Ysbyty Trelew a phriodwyd hwy y flwyddyn ddilynol yn Llanfairfechan.

Bu'r ddau yn ddiwyd yn trefnu teithiau i'r Wladfa nifer o weithiau ac 'roedd taith arall ar y gweill ar gyfer eleni.

# CYSILL

**Dyna i chi air newydd! Mae'n gyfuniad o ran o ddau air Cymraeg, sef *Cymorth* a *Sillafu - Cy...Sill.***

Sillafydd Cymraeg ydi hwn ac mae'n ffrwyth dwy flynedd o waith a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Cymru ym Mangor.

Mae'r rhaglen gyfrifiadurol hon yn cynnwys dros 39,000 o eiriau.

Adran Seicoleg y Brifysgol sydd wedi bod yn gweithio ar y rhaglen ac un o'r cyfranwyr yw Nadine Laporte sy'n dod o'r Wladfa. Daeth hi i Goleg Harlech yn 1989 er mwyn cael dysgu Cymraeg.

Ychydig iawn iawn o Gymraeg a siaradai hi bryd hynny ac mae'n destun edmygedd pan sylweddolwn mai hi fu'n gyfrifol am ddewis geiriau i'w rhoi yn y Geiriadur Cysill.

Sbaeneg yw ei hiaith gyntaf ond yn ogystal â'r Gymraeg mae hefyd wedi dysgu Saesneg a chafodd ysgoloriaeth i fynd i Rwsia i astudio'r iaith yno.

# OES YNA BEN DRAW?

Pan welir ci defaid ifanc yn cornelu ieir ar fuarth ffarm fe ddywedir *bod elfen ynddo* a gobaith am iddo dyfu i fod yn gi da a buddiol.

Un felly'n ddiamau ydi Ben y ci o Lannerch-y-medd ym Môn.

Mae Ben, sy'n eiddo i Emlyn Roberts - er ei fod yn bedair oed - yn dal i ymlid a chornelu'r ieir a'r hwyaid ond yn gwneud hynny dan gyfarwyddyd ei berchennog. Mae'r gamp eisoes wedi tynnu sylw trefnwyr Sioe Amaethyddol Môn a Ben wedi bod yn y Sioe honno yn arddangos ei allu.

Clywsom ei fod erbyn hyn wedi cael gwahoddiad i roi perfformiad yn Sioe Gŵn Crufts yn Lloegr.

# Carlo'n disgwyl i glywed a fydd croeso yn y Nant

Garddwest i 1500 o ddetholion yng Nghastell Caernarfon fydd un o'r prif weithgareddau yn nyddiadur y Tywysog Charles am eleni, i gofnodi 25 mlynedd er yr Arwisgiad.

Cadarnhaodd Palas St. James yr wythnos yma y bydd y Tywysog yn ymweld â Chaernarfon ar Orffennaf 1.

Ond eisoes, fel y gwelwyd yn *Yr Herald* rai wythnosau'n ôl, mae'r digwyddiad wedi codi nyth cacwn, gyda rhai yn amau gwerth a phwrpas yr ymweliad, ac eraill yn mynnu y bydd o fudd economaidd.

Ond bydd rhaid i Balas Buckingham ddisgwyl am ddau fis i gael gwybod os bydd croeso i'r Tywysog ymweld â Chanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn yn ystod ei daith. Yn dilyn cais gan Ysgrifenyddes y Tywysog dydd Llun yn gofyn os y buasai'n cael ymweld â'r Ganolfan, nid yw'r Pwyllgor wedi penderfynu hyd yn hyn os bydd croeso iddo. Buasai'r ymweliad yn rhan o daith y Tywysog o gwmpas Gogledd Cymru.........................

*(O'r Herald Cymraeg, Ionawr 22 1994)*

---

*Ni cheir gan y llwynog ond ei groen.*
*Ni bydd allt heb waered.*
*Ni raid i ddedwydd ond ei eni.* *(Diarhebion)*

# A DDAW SENEDD?

Mewn cyfarfod yng Nghaernarfon fis Ionawr pwysleisiwyd bod angen cael Senedd i Gymru er mwyn dychwelyd y pwerau a gollwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Dywedodd y Cadeirydd, Mr. John Osmond, fod llawer mwy yn uno'r gwrthbleidiau nac yn eu gwahanu.

Mae canghennau o'r ymgyrch wedi cael eu sefydlu mewn trefi a phentrefi erbyn hyn.

# *Yn ôl i 1938*

Ar Ragfyr 8 1993 bu farw'r Parchedig Rheinallt Nantlais Williams a fu'n Athro Athroniaeth yng Ngholeg Diwinyddol, Aberystwyth, o 1953 hyd 1978 ac yn Brifathro'r Coleg o hynny hyd 1980.

'Roedd yn 82 oed ac yn fab i'r diweddar Barchedig W. Nantlais Williams a ymwelodd â Phatagonia yn 1938.

Yn ôl Moelona Roberts de Drake yn y gyfrol *Byw ym Mhatagonia* fe ohiriodd Nantlais ei ymadawiad â'r Wladfa er mwyn cael bod yn angladd Eluned Morgan. Mae cyfrol o'r gohebiaethau a fu rhwng Nantlais ac Eluned Morgan wedi ei chyhoeddi dan olygyddiaeth Dafydd Ifans, Gwasg Efengylaidd Cymru.

# NEWYDD SBON

Bydd cyfle o hyn allan i astudio pwnc newydd sbon yn Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd. Cynigir gradd M.A. mewn Astudiaethau Gwerin.

Mae Trefor M. Owen, Cyn-guradur Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan wedi cael ei benodi yn Athro Anrhydeddus ar gyfer yr Astudiaethau.

'Roedd yr Athro Owen cyn ei ymddeoliad yn Guradur yr Amgueddfa er 1971. Ef a ddilynodd y Dr. Iorwerth Peate yn y swydd honno. 'Roedd, cyn hynny, wedi bod yn ddarlithydd mewn Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Gogledd Cymru ac wedi bod hefyd yn astudio yn Adran Bywyd Gwerin Prifysgol Uppsala yn Sweden.

Mae'r Athro yn hanu, o ochr ei dad, o deulu Meillionydd Mawr yn Llŷn, ac o ochr ei fam, o Ddolgellau ym Meirionydd.

# NODYN NEU DDAU

**Cewch chwi chwilio am y nodau ond dyma eiriau dau bennill gwerin a ddaeth i'r cof:**

Lodes ei mam a lodes ei thad
 A ddeui di efo mi allan i'r wlad
I'r lle mae gwin yn troi melinau
 A chan punt am gysgu'r borau?

Llaw fach i Mam a llaw fach i 'Nhad:
 Mi ddeuaf efo chwi allan i'r wlad,
I'r lle mae gwin yn troi melinau
 A chan punt am gysgu'r borau?

**Rhy hael ac anghredadwy oedd y cynnig gan ddieithryn ond mentrai i rywle yn llaw ei rhieni.**

# GEFEILLIO

Gweddol gyffredin erbyn hyn yw cysylltu trefi o Gymru â threfi ar gyfandir Ewrop a galw'r weithred yn Efeillio.

Mae tref Landernau yn Llydaw a thref Caernarfon yng Ngogledd Cymru eisoes yn "efeilliaid". Mae rhai o drigolion Caernarfon ynghyd â Chôr Meibion y Dref wedi bod eisoes yn Llydaw fis Gorffennaf y llynedd a deallwn erbyn hyn fod Cyngor Tref Caernarfon yn apelio am lety i dros gant o Lydawyr a ddisgwylir yno yn ystod y Gwanwyn.

Mae disgyblion o ysgolion Brynrefail a Dyffryn Nantlle wedi cyfnewid ymweliadau ers tro a 'does dim ond rhyw bum milltir rhwng yr ysgolion hyn a thref Caernarfon ei hun.

---

A ŵyr boen ar obennydd
A ŵyr fwynhad toriad dydd. *Pwy tybed?*

# Yng Nghlust y Teleffôn

Clywsom fod:

- Taith yn cael ei threfnu i ymweld â'r Wladfa ym mis Ebrill eleni. Pery am 22 o ddyddiau a'r cyfan dan ofal Cwmni Teithio Richards, Llanelli, a Mair Edwards, Llanuwchllyn.
- Pedr MacMullen, Sir Benfro a Gruffydd ac Eifiona Roberts, Aberhonddu yn bwriadu dod drosodd i ddilyn Gwilym Roberts fel athrawon Cymraeg.
- Fideo o briodas Gladys a Billy Hughes yn cael ei dangos yng Nghyfarfod Gŵyl Ddewi Cangen Môn ac Arfon o Gymdeithas Cymry Ariannin.
- Laura a Rebecca Henry ar eu gwyliau yng Nghymru.
- Cynrychiolwyr o BBC Cymru yn ymweld â'r Wladfa ym Mis Chwefror i wneud rhaglenni radio.

# CLEFYD Y SUL

Diogi ac unrhyw esgus arall dros beidio â mynychu moddion gras a elwid yn Glefyd y Sul erstalwm. Gellir ychwanegu esgus arall - siopa - o hyn allan gan fod agor y siopau ar y Sul wedi cael hawl seneddol erbyn hyn.

Yn ôl un arolwg 'roedd y rhan fwyaf o'r Cymry a holwyd ynghylch y pwnc, sef 70% ohonynt, yn dymuno gweld y siopau yn agored. 'Roedd 28% am weld rhai siopau yn unig yn agored ac 1% am gau pob siop.

# POBOL BUSNES

Mae'r siawns o gael gwaith mewn siop a ffatri yn mynd yn anos bob dydd, a llawer un yn mynd ati i geisio cael bywoliaeth trwy agor ei fusnes bach ei hun.

Mae'n bolisi gan Adrannau o'r Llywodraeth i gynorthwyo ymdrechion fel hyn.

Un o'r dulliau yng Nghymru ydi i'r Papurau Bro megis *Lleu, Y Ffynnon, Y Tincer* neu'r *Glorian* (mae tua 40 ohonynt i gyd) ddod o hyd i'r bobol busnes hyn a chyhoeddi hanes eu hymdrechion yn y papurau. Yna bydd rhyw bwyllgor canolog yn dewis y stori orau bob mis a'r "busnes bach newydd" yr ymddengys ei fod yn llwyddiannus yn cael £250 a'r Papur Bro sy'n cyhoeddi'r stori yn cael £250 arall i'w gynorthwyo yntau i ddal ati.

# Y BWRDD IAITH

Mae democratiaeth yn prysur ddiflannu a Chymru bellach yn cael ei thywys gan fân reolwyr a ddewisir gan y Llywodraeth. Adwaenir y mân bwyllgorau hyn fel *Cwangos* - sydd yn rhyw ffug-ddemocrataidd, a'r rhan fwyaf o'r aelodau yn blant da ac ufudd i'r Llywodraeth. Cawn fod 14 o aelodau - sy'n cynnwys tair o ferched - ar y Bwrdd Iaith, a'r cyfan dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Elis Thomas sydd yr unig aelod o Blaid Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi yn Llundain.

Yn ôl Syr Wyn Roberts, y Gweinidog Gwladol, bydd y Bwrdd yn cynnwys cronfa fawr o dalent a fydd yn eithriadol o effeithiol wrth roi Deddf Iaith ar waith, ac yn gweithredu prif swyddogaeth y Bwrdd, sef hybu a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg.

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, sydd wedi bod yn weithgar ac effeithiol dros y blynyddoedd trwy eu protestiadau, wedi anfon at aelodau'r Cwango yn gofyn iddynt fyw heb eu tâl o £5,000 y flwyddyn ac iddynt roi y swm hwnnw i Fudiad o'u dewis eu hunain sy'n gweithio dros yr iaith Gymraeg.

---

# CYSTADLEUAETH

Dyma'r testun i gystadlu arno ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1994:

*Cystadleuaeth i rai sydd wedi byw yn Ariannin ar hyd eu hoes ac sy'n dal i fyw yno:*

***CASGLIAD O FEDDARGRAFFIADAU CYMRAEG O'R WLADFA***

Y Beirniad fydd Elvey MacDonald ac mae Cymdeithas Cymry Ariannin yn rhoi gwobr o £100 i'w rannu yn ôl doethineb y beirniad.

Y dyddiad cau yw 1 Ebrill 1994

---

Mae y gwas pan deyrnaso
Â llaw barn yn drwm lle bo.

*Pwy tybed?*

# LLADRON

**Mae sôn am ladrata eiddo o dai a ffermydd a cheir wedi dod yn bwnc siarad pob dydd i ni bellach a phobol mewn oed yn cael eu cynghori gan yr heddlu ar iddynt fod yn ofalus wrth groesawu pobol ddieithr wrth eu drws.**

**Hen arferiad bellach yw denu'r perchennog i'r ardd neu i'r cae - ar ryw esgus - ac i un arall o'r lladron sleifio i'r tŷ.**

Mae lladrata trelars o ffermydd ac o feysydd parcio wedi dod yn beth cyffredin iawn a'r heddlu yn argymell i bawb roi enw neu nod ar do y trelars i hwyluso heddwas mewn hofrennydd i'w hadnabod pan geisia eu dilyn trwy'r awyr.

# YN Y GWYNT

Mae'r ddwy Atomfa - y naill yn Nghrawsfynydd a'r llall yn yr Wylfa ar Ynys Môn - wedi bod yn cynhyrchu a chyflenwi trydan ers y chwedegau. Buont yn achos ofn a phryder i rai gan y credent eu bod yn amhuro'r awyr ac amharu ar iechyd y trigolion a'r cyfan yn destun dadlau brwd ar adegau.

Y melinau gwynt sy'n cael eu codi yng Nghanolbarth Cymru i gynhyrchu trydan ydi pwnc y dadlau mewn ambell ardal erbyn hyn. Dros nos, megis, daeth bygythiad newydd i harddwch a llonyddwch y mynydd-dir. Mae'r mastiau dur, sy'n cynnal yr adenydd, dros gan troedfedd o uchder, a hynny mewn grwpiau o bymtheg hyd at gant ohonynt ar adegau, a'r rheini wedi eu codi ar gopa bryniau Sir Aberteifi.

Ar wahân i'r gŵyn am yr anharddu mae'r sŵn hefyd yn amharu ar dawelwch y broydd ac ar gyfnodau gwyntog mae'n annioddefol ac wedi bod yn ddigon i un teulu orfod gadael eu cartref.

Cafwyd cyfarfod cyhoeddus yn ardal Dolgoch lle daeth yn agos i 40 o'r ardalwyr at ei gilydd i drafod y broblem.

Dywed un datblygwr ffarm wynt fod gwahanol fathau i'w cael a bod y rhai tair asgell a ddaw o Ddenmarc yn fwy dymunol i edrych arnynt ac yn dawelach.

# CANU PLYGAIN

Mae'r Canu Plygain yn hen draddodiad a'r arferiad mewn rhannau o Gymru wedi dal yn boblogaidd hyd heddiw yn enwedig yn Sir Drefaldwyn.

Ni raid mynd yno i'w clywed bellach gan fod enghreifftiau ohonynt i'w cael ar gasetiau a'r arferiad hefyd yn graddol afael o leiaf yn Sir Gaernarfon - neu o bosib yn ailafael.

Cafwyd dau gyfarfod o fewn wythnos yn Eglwys Pwllheli eleni, y cyntaf wedi ei drefnu gan Ddeoniaeth Bangor o'r Eglwys yng Nghymru, a'r ail, fel y llynedd, gan Glwb y Bont, Pwllheli.

---

I Gofio Hen Gertmon

Yn ddyfal trwy'i ofalon - i'w dalar
Deilwng daeth hen gertmon,
Fe roes ef heb fawr o sôn
Oes wen i gwysi union.

(Gwynus)

Chwerthin a wna ynfyd wrth foddi. (*Dihareb*)

# LLAWENYDD YN Y BETWS

**Yr oedda nhw'n dathlu yn Rhydaman yr wythnos diwethaf gyda'r newyddion fod glofa'r Betws wedi ei hachub.**

Y gobaith yw y bydd cwmni preifat, *Betws Anthracite,* a arweinir gan Martin Cook, 39 oed, a thri rheolwr arall a fu'n gweithio yn y pwll, yn cynhyrchu glo yn y gwanwyn. Gobeithir cyflogi 80 o ddynion.

Y mae cytundeb ar fin cael ei arwyddo gyda'r Bwrdd Glo a rhagwelir bywyd o hyd at 12 mlynedd i'r pwll nad yw'r Bwrdd Glo yn gweld dyfodol iddo.

Yn ardal Hirwaun, fodd bynnag, nid oedd y newyddion cystal gyda glofa'r *Tower* ar restr o chwech a luniwyd gan y Bwrdd Glo sy'n dweud y bydd yn rhaid cau rhai ohonynt.

(O'r *Cymro, Ionawr 19 1994)*

# 'RWY'N CARU CYMRU?

**Bydd digon o garu'n digwydd ar ddiwrnod Santes Dwynwen eleni - yng Nghlwb y Bont, Pontypridd, os nad yn unlle arall.**

Er mwyn tynnu sylw at ddiwrnod y Santes Gymraeg ar Ionawr 25 mae *Menter Taf-Elai* wedi cymryd rhan Ciwpid a threfnu Dawns Dwynwen ar nos Sadwrn, Ionawr 22.

Yn ogystal â'r disgo a'r bar dialcohol bydd "Enaid Coll" a grwp newydd "Da" o Ysgol Llanhari yn chwarae.

Digon o gyfle i gariadon Cymraeg yr ardal ddod i nabod ei gilydd yn well!

(O'r *Cymro, Ionawr 19 1994)*

---

Ni ddaw i neb ddoe yn ôl.
Ni cheir da o hir gysgu.
Ni chaiff chwedl nid êl o'i dŷ. *(Diarhebion)*

# ???

Chwiliwch am yr atebion i'r canlynol yn y Papur hwn. Os anfonwch yr atebion atom erbyn Ebrill 10 1994 rhown y cyfan mewn het a'r cyntaf cywir a dynnir ohoni gaiff gyhoeddi ei enw yn y rhifyn nesaf o *Yr Hen Wlad.*

1. Ym mhle y bydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn 1995?

2. Pwy sy'n cynrychioli Plaid Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi yn Llundain?

3. Pa ddwy dref sy'n gefeillio?

4. Pwy yw Emlyn Roberts?

5. Ym mha flwyddyn y bu Nantlais yn Y Wladfa?

6. Pwy yw'r crwydrwr enwog?

7. Pwy fydd yn arlwyo yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru am y tair blynedd nesaf?

8. Faint fydd yn cael gwahoddiad i Arddwest Carlo?

9. Pwy yw Cadeirydd yr Ymgyrch am Senedd i Gymru?

10. Rhowch un o'r cwynion yn erbyn y melinau gwynt.

11. Ar ba ddiwrnod y bydd seremoni Cymru a'r Byd yn yr Eisteddfod Genedlaethol nesaf?

12. Ym mhle mae llawenydd?

13. Enwch ddau Bapur Bro.

14. Enwch hen draddodiad blynyddol.

15. Pwy sydd yma o hyd?

16. Beth sydd o flaen *Sill?*

17. Ym mhle mae'r boen?

18. Ym mhle y dylid rhoi enw?

---

Annoeth llithrig ei dafod. *(Dihareb)*